Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Llangefni

**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7NG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Llangefni

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Llangefni |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 686 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 582 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 104 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Uwchradd yw 20.2%) | 15.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Uwchradd yw 17.8%) | 25.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 78.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/01/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn darparu gofal a lles o'r radd flaenaf i'w disgyblion er mwyn iddynt lwyddo, beth bynnag fo'u hanghenion. Mae'r staff yn llwyddo i greu ymdeimlad teuluol ac maent yn adnabod disgyblion yn dda iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr sy'n sicrhau cynnydd yn academaidd ac yn eu datblygiad personol. Mae dulliau llwyddiannus i ddelio ag ystod a anghenion, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n gweld hi'n anodd ymdopi â'u hemosiynau.

Mae disgyblion yn dangos balchder o fod yn rhan o gymuned yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn uchelgeisiol ac yn dangos agwedd gadarnhaol gan ddyfalbarhau â'u gwaith. Er bod presenoldeb yr ysgol wedi gwella ychydig eleni, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn rhy isel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn waraidd ac yn symud yn drefnus o amgylch safle'r ysgol. Mae ansawdd yr adeiladau eu hunain yn dirywio ac angen eu huwchraddio.

Rhinwedd nodedig o'r ysgol yw'r berthynas weithio agos a chynhaliol sydd rhwng yr athrawon â'u disgyblion. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn cynllunio'n ddychmygol er mwyn ennyn diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau'r disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn dda, yn darllen yn gryf ac ysgrifennu'n hyderus. Maent yn datblygu eu medrau rhifedd yn bwrpasol mewn ystod o bynciau. Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio'n ormodol sy'n golygu nad yw disgyblion bob tro'n  deall beth sydd angen ei wneud i wella'u gwaith.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion cynradd a sefydliadau allanol er mwyn cynnig ystod o brofiadau i'r disgyblion. Elfen nodedig o'r ddarpariaeth hon yw'r profiadau awyr agored a gwersi garddio a roddir i ddisgyblion er mwyn datblygu medrau pynciol a medrau ehangach mewn cyd-destunau tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy'n seiliedig ar greu ysgol gymunedol, gynhwysol. Mae'n angerddol ac yn uchelgeisiol dros ddisgyblion, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Trwy flaenoriaethu lles disgyblion a staff ac wrth roi cefnogaeth werthfawr, mae arweinwyr wedi datblygu ysgol gydag ethos cefnogol a chymuned ofalgar a diogel. Ar sail eu gwaith sicrhau ansawdd, mae gan arweinwyr drosolwg gadarn o'r cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu maes ac yn argymell camau gwella defnyddiol. Serch hyn, ni roddir digon o sylw i safonau a chynnydd disgyblion o fewn prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn adnabod gwendidau ym medrau'r disgyblion yn ddigon manwl er mwyn cynllunio i'w gwella.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim

A2 Cryfhau’r gwaith hunanwerthuso, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliant

A3 Gwella ansawdd ac effaith adborth i ddisgyblion

A4 Gwella ansawdd yr adeiladau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â (i) darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a (ii) darpariaeth awyr agored a garddio, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau yn eu gwersi a thros amser. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ddysgu blaenorol ac maent yn llwyddo i gymhwyso hyn mewn cyd-destunau newydd ac anghyfarwydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth arbennig o drylwyr, er enghraifft wrth gysylltu data a chanfyddiadau o brofion meddygol i roi diagnosis cywir i glaf yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn erbyn eu targedau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athro ac mae llawer yn barod i ateb ar lafar. Maent yn gwrando'n barchus ar eu cyfoedion ac yn cyfathrebu'n glir a thrafod gyda'i gilydd yn naturiol yn y Gymraeg. Mae gan y rhan fwyaf afael gadarn ar dermau pwnc-benodol gan eu defnyddio'n  bwrpasol a hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Wrth ymateb i gwestiynau'r athro, mae mwyafrif y disgyblion yn cynnig atebion llafar estynedig gan gyfiawnhau eu hatebion. Fodd bynnag, mae atebion ychydig o ddisgyblion yn rhy syml ac arwynebol. Mae llawer o ddisgyblion  yn rhannu syniadau pwrpasol ar lafar gyda'i gilydd ac maent yn hyderus wrth rannu gyda'r dosbarth cyfan. Mae ychydig o ddisgyblion yn dawedog ac yn amharod i gyfrannu ar lafar. Yn ychwanegol, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad ar draws yr athro a'u cyfoedion, ar adegau.

Wrth ddarllen yn y Gymraeg a Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth berthnasol mewn testunau yn effeithiol ac yn canfod ystyron yn briodol. Maent yn llwyddo i ddod i gasgliad rhesymol ar sail y darnau darllen, er enghraifft wrth ddadansoddi ffynonellau ar y wladwriaeth les yn eu gwersi hanes. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen er mwyn ateb cwestiynau arholiad yn briodol ac mae'r mwyafrif yn gwneud hynny'n  gymwys. Nid yw'r disgyblion mwyaf abl bob amser yn dehongli cwestiynau arholiad mewn modd digon soffistigedig. Mae mwyafrif y disgyblion yn adnabod technegau llenyddol yn briodol ond nid ydynt bob amser yn trafod effaith y technegau mewn digon o fanylder. Maent hefyd yn datblygu eu gallu i ddehongli iaith ac ystyr yn gadarn, er enghraifft tra'n darllen rhwng y llinellau wrth ddarllen y nofel 'After Tomorrow' yn eu gwersi Saesneg. O gael y cyfle, mae lleiafrif y disgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus. Mae ychydig yn gwneud hynny gydag arddeliad gan ddarllen yn egnïol a chyfleu ystyr yn dda.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dechnegol gywir gan strwythuro brawddegau'n addas a pharagraffu'n briodol yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio geirfa addas ac mae ychydig yn meddu ar eirfa gyfoethog iawn. Ar draws y pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o ffurfiau ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn eu gwersi addysg grefyddol, maent yn defnyddio eu gwybodaeth am agweddau pobl at ryfel i greu sgript ar gyfer rhaglen radio. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau pynciol wrth ysgrifennu. Maent yn ymateb yn bwrpasol i adborth er mwyn gwella eu gwaith. Mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu cyson ac yn atalnodi'n wallus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn llwyddiannus yn y gwersi mathemateg a phynciau perthnasol eraill. Maent yn llunio graffiau'n gywir gyda phenawdau a llinell ffit orau. Pan gânt gyfle, mae'r disgyblion hyn yn dadansoddi graffiau yn synhwyrol, er enghraifft i ddarganfod y berthynas rhwng graddfa ffurfio hydoddyn wrth i hydoddiant oeri. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion mwy abl yn cyflawni eu gwaith rhif yn llwyddiannus heb fawr ddim camgymeriadau. Mae'r rhan fwyaf yn deall cysyniadau elfennol algebra ac mae mwyafrif y disgyblion yn aildrefnu fformiwlâu, cyfnewid unedau, amcangyfrif a thalgrynnu'n llwyddiannus. Llwydda llawer o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau rhif i ddatrys problemau. Enghreifftiau penodol o hyn yw defnyddio graddfa i gyfrifo pellter rhwng gwahanol lefydd, cymhwyso theorem Pythagoras i gynorthwyo'r awyrlu i dargedu'n gywir a rhannu'r bil rhwng cwsmeriaid mewn caffi. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio hafaliadau'n gywir. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn ddigon sicr ynghylch sut i ymdrin â ffracsiynau nac i wneud cyfrifiadau sydd angen mwy nag un cam.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol yn eu gwersi technoleg gwybodaeth a chyfrifiaduron (TGCh) a phynciau eraill. Mae llawer yn hyderus wrth chwilio am wybodaeth berthnasol ar y we. Maent yn cynhyrchu gwaith yn ddigidol ar sail yr ymchwil, er enghraifft gwybodaeth am gwpan pêl-droed y byd yn dilyn darganfod gwefannau addas a pherthnasol. Llwydda llawer i greu taenlenni i arddangos data, gyda'r mwyafrif yn defnyddio'r rhaglen i greu graff, er enghraifft yn dilyn eu hefelychiad digidol o arbrawf gwyddonol. Mae mwyafrif y disgyblion yn elwa o gyfleoedd i lunio eu holiadur eu hunain ar gyfer gwaith ymchwil ac i gydweithio ar ddogfennau ar-lein i goladu gwybodaeth.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu syniadau creadigol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddylunio cloc wedi ei ysbrydoli gan grŵp dylunio 'Memphis' yn eu gwersi technoleg. Llwyddant i fynegi barn am eu syniadau a sut i'w datblygu. Mae llawer o ddisgyblion yn arbrofi'n llwyddiannus â lliw a thôn i wella cyfansoddiadau yn eu gwaith celf. Yn eu gwersi Cymraeg, mae llawer yn greadigol wrth ysgrifennu diweddglo i stori fer 'Hen Stori' gan Sonia Edwards.

Defnyddia lawer o ddisgyblion eu medrau meddwl yn gelfydd, er enghraifft wrth werthuso dibynadwyedd profion meddygol. Wrth weithio'n annibynnol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl ymhellach trwy, er enghraifft, ymateb i dargedau ac adnabod cryfderau a gwendidau ysgrifenedig a'u gwella. Serch hynny, nid ydynt bob amser yn cael cyfle i ymarfer eu medrau meddwl yn annibynnol gan fod yr athro'n strwythuro gwaith yn ormodol. Dengys llawer o ddisgyblion fedrau corfforol cadarn sy'n eu galluogi i wneud amrywiaeth o ymarferion i wella eu ffitrwydd.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn gryfder amlwg. Mae ymdeimlad cryf ymysg disgyblion o fod yn rhan o gymuned yr ysgol ac maent yn dangos balchder mewn bod yn ddisgyblion Ysgol Gyfun Llangefni. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol, yn teimlo eu bod yn ddiogel ac maent yn glir at bwy i droi am gymorth os oes ei angen arnynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo nad ydynt yn cael eu bwlio a bod staff yr ysgol yn ymateb yn gyflym yn yr achosion prin sy'n digwydd.

Mae disgyblion yn groesawgar i ymwelwyr ac yn cyfathrebu â hyder a chwrteisi gyda'u hathrawon a chyd-ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn cyrraedd eu hystafelloedd dosbarth yn brydlon ac yn barod i weithio. Maent yn symud o gwmpas safle'r ysgol yn waraidd a threfnus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweld pwysigrwydd datblygu eu ffitrwydd ac i fyw bywyd iach gan fanteisio ar gyfleoedd i fod tu allan, er enghraifft yn y gwersi garddio ac awyr agored.  Mae disgyblion hefyd yn elwa o brofiadau allgyrsiol cyfoethog, sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a mwynhau gyda ffrindiau, er enghraifft yn y clwb gwaith cartref a chlwb LHDTC+.

Dengys bron pob un disgybl agwedd gadarnhaol at ddysgu, gyda llawer yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio â'i gilydd mewn grwpiau bach yn gynhyrchiol, ac yn arddangos parch at farn disgyblion eraill. Mae mwyafrif y disgyblion yn gweithio'n annibynnol, yn dangos dyfalbarhad ac uchelgais, er enghraifft wrth ymateb i asesu er mwyn gwella gwaith ysgrifennu estynedig. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch at gyflwyniad eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddigonol ac maent yn ei gweld hi'n anodd cadw ffocws am gyfnodau hir yn y gwersi.

Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd buddiol i fynegi barn am yr ysgol, gyda'r mwyafrif yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu nwyddau mislif am ddim yn dilyn awgrym aelodau'r cyngor ysgol. Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau arweiniol gwerthfawr trwy fforymau blwyddyn a'r cyngor ysgol. Mae aelodau'r chweched dosbarth yn llysgenhadon brwd, sy'n groesawgar i ymwelwyr ac yn dangos balchder yn eu hysgol. Maent yn elwa o gyfleoedd i arwain disgyblion iau'r  ysgol, gan ddatblygu medrau cydweithio a threfnu defnyddiol, er enghraifft trwy gadeirio'r cyngor ysgol, arwain y clwb gwyddoniaeth a chynorthwyo disgyblion Blwyddyn 7 â'u darllen.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn huawdl a chwrtais dros ben. Mae eu hagwedd at waith a bywyd yr ysgol yn aeddfed iawn. Mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig am y cyrsiau sydd ar gael iddynt yn yr ysgol ac mewn partneriaeth â chonsortiwm lleol. Yn y gwersi, mae eu hagweddau'n gadarnhaol iawn ac maent yn dangos diddordeb yn yr hyn sy'n cael ei addysgu. Maent yn dyfalbarhau wrth weithio ar dasgau estynedig ac yn arddangos medrau llafar cryf.

Er bod presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella ychydig o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn arwyddocaol is na disgyblion eraill yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon yn meithrin perthynas weithio agos a chynhaliol â'u disgyblion. Maent yn frwdfrydig ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn sensitif. O ganlyniad, ceir awyrgylch gweithgar yn eu gwersi.

Mae bron bob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gynhwysfawr. Mae llawer ohonynt yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i ennyn diddordeb disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn

darparu adnoddau dysgu atyniadol sydd wedi'u cynllunio'n dda. Maent yn gwneud defnydd effeithlon o amser drwy gynnig tasgau dysgu i'r disgyblion yn syth ar ôl iddynt ddod i'r dosbarth ac maent yn addasu cyflymdra'r wers yn grefftus yn ôl y cynnydd mae'r disgyblion yn ei wneud.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn cynnig her briodol iddynt. Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn addasu'u haddysgu'n grefftus yn ôl anghenion dysgu disgyblion penodol. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn cynnig esboniadau clir o gysyniadau pynciol. Maent yn rhannu meini prawf llwyddiant defnyddiol â disgyblion ac yn cynnig enghreifftiau o waith o safon uchel iddynt fel eu bod yn deall yr hyn maent yn anelu ato. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol â chymorthyddion er mwyn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu penodol.

Mewn ychydig o achosion, ceir addysgu ysbrydoledig. Yn yr achosion hyn, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau hynod uchel o'u disgyblion ac maent yn angerddol am eu pwnc. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio'u gwersi mewn modd creadigol sy'n ysgogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Maent yn holi cwestiynau treiddgar i sbarduno'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach a chwestiynu eu rhagdybiaethau.

Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn symud o amgylch y dosbarth i fonitro cynnydd disgyblion a chynnig cymorth buddiol iddynt, lle bo'i angen. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, mae'r ystafelloedd dysgu yn fach iawn ac yn rhwystr i hyn. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn defnyddio technegau cwestiynu yn effeithiol. Maent yn defnyddio cwestiynau caeedig i wirio gwybodaeth bynciol disgyblion a rhai agored i brocio'u dealltwriaeth ac ymestyn eu hymatebion.

Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Mae eu sylwadau'n cydnabod gwaith da, yn rhoi cyngor ar sut i wella ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wella eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn amrywio'n ormodol. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r arsylwadau'n rhy arwynebol neu'n ganmoliaethus yn unig. Yn yr achosion hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith mewn modd ystyrlon.

Mae agweddau penodol i'w gwella mewn ychydig o wersi. Yn yr achosion hyn, nid yw'r cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd ac nid oes digon o her i ddisgyblion mwy abl. Nid oes gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni na'u defnydd o'r Gymraeg. Nid ydynt yn defnyddio technegau cwestiynu'n ddigon effeithiol ac maent yn dueddol o barhau i gyflwyno tra bod disgyblion yn siarad ymysg ei gilydd.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n tanio diddordeb ac ysgogi disgyblion i weithio'n gynhyrchiol a gwneud cynnydd yn eu dysgu. Mae cynllunio gofalus ar gyfer datblygu medrau o fewn y gwersi, ac yn fwy diweddar, yn ystod cyfnodau cofrestru. Caiff y profiadau hyn eu datblygu ymhellach mewn sesiynau ymyrraeth i grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae'r cydlynwyr medrau llythrennedd a rhifedd yn cynnig arweiniad a chefnogaeth addas i arweinwyr canol ac athrawon drwy hyfforddiant a chyfarfodydd. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymarfer eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu ac mae cyfleoedd tebyg i ddatblygu medrau rhifedd a digidol yn dechrau gwreiddio er nad ydynt bob amser yn cynnig lefel ddigonol o her y tu allan i'r adran mathemateg, gwyddoniaeth a TGCh.

Yn dilyn cyfnod y pandemig, mae'r ysgol wedi blaenoriaethu cynnig ystod o brofiadau allgyrsiol i'r disgyblion. Trefnir amrywiaeth eang o ymweliadau a theithiau addysgol yn lleol, yn genedlaethol a thramor i bob oed, er enghraifft taith i'r Sioe Frenhinol, teithiau i Ffrainc, gweithdy STEM 'merched medrus', ac ymweliad â chastell a charchar Biwmares. Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr iau drwy eu harwain i ddysgu am eu hardal leol, er enghraifft drwy ddysgu am seintiau lleol a diwydiannau'r ynys. O fewn gwersi'r dyniaethau a lles, caiff disgyblion gyfle addas i drafod materion yn ymwneud â hanes a phrofiadau pobl dduon, rhagfarn a gwahaniaethu.

Wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, mae'r ysgol yn arbrofi ac addasu er mwyn gweithredu ei gweledigaeth o gynnig y profiadau addysgol gorau i'w disgyblion. Mae arweinwyr ar bob lefel yn frwdfrydig wrth gydweithio, er enghraifft o fewn meysydd dysgu a phrofiad ac mewn partneriaethau ag ysgolion uwchradd eraill. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn ag ysgolion cynradd lleol er mwyn sicrhau bod profiadau disgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn caniatáu trosglwyddo hwylus o'r cynradd i'r uwchradd. Elfen nodedig o'r ddarpariaeth newydd ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 yw'r profiadau dysgu cyfoethog a ddarperir drwy ddysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, yn y wers arddio, mae'r disgyblion yn cael cyfle gwerthfawr i ddatblygu gardd gymunedol ar dir yr ysgol gan gymryd cyfrifoldeb am gynllunio a chynnal yr ardd. O gwmpas y gwaith ymarferol hwn, mae'r disgyblion yn dysgu am wahanol agweddau fel cynaliadwyedd, gwarchod bywyd gwyllt a meddylgarwch gan gymhwyso medrau eang i gyd-destun bywyd go iawn. Yn y gwersi awyr agored, caiff y disgyblion gyfle buddiol i ddatblygu ystod o fedrau personol, corfforol ac ymarferol cyn cael cyfle i'w rhoi ar waith mewn taith i ganolfan awyr agored Crafnant.

Nodwedd amlwg o gwricwlwm yr ysgol yw'r sylw cynyddol i ddarparu profiadau o fewn y maes iechyd a lles i ddisgyblion iau'r ysgol yn arbennig. Rhoddir ystyriaeth werthfawr i faterion fel lles emosiynol, datblygu agweddau cadarnhaol at eu hunain ac eraill a datblygu agwedd gyfrifol at y corff a'r meddwl. Mae'r ysgol, mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, yn cynnig gweithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol priodol i ddisgyblion hŷn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis eang o gyrsiau TGAU, gan gynnwys llythrennedd ariannol a chyfrifiadureg. Cyfoethogir yr opsiynau ymhellach drwy gyrsiau a ddarperir drwy'r coleg lleol, er enghraifft cyrsiau adeiladwaith, peirianneg a gwallt a harddwch. Drwy'r 'Hwb', mae'r ysgol yn darparu cyrsiau a phrofiadau amgen defnyddiol sy'n ymateb i anghenion carfan fach o ddisgyblion sydd mewn perygl o ddatgysylltu o addysg. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac agweddau'r disgyblion hyn tuag at eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ac effeithiol gyda sefydliadau addysg lleol er mwyn ehangu'r arlwy o gyrsiau ar gyfer disgyblion ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol fel peirianneg sifil a chyfryngau creadigol. Mae hyblygrwydd yn y cydweithio yn caniatáu disgyblion i ddilyn eu pynciau dewisol ac mae'r trefniadau ymarferol wrth deithio rhwng ysgolion yn hwylus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddathlu treftadaeth Gymreig a bod yn Gymry, er enghraifft drwy'r Eisteddfod ysgol, Eisteddfodau lleol a chyfleoedd i gydweithio â'r Urdd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo manteision bod yn amlieithog ond mae nifer o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn dewis cwblhau gwaith ysgrifennu drwy gyfrwng y Saesneg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn gymuned ofalgar, gynhwysol, Gymreig sy'n gosod lles disgyblion yn ganolig i bopeth a wnânt. Mae staff yr ysgol yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn darparu cefnogaeth les wedi'i theilwra ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf drwy'r holl waith lles ar oresgyn rhwystrau i ddysgu. Mae gwefan les yr ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr i'r holl ddisgyblion a rhieni ac mae llinell gymorth gyfrinachol i nodi unrhyw ofidiau. Maent yn darparu cefnogaeth amserol ac effeithiol i fynd i'r afael â materion lles ac mae darpariaeth gynhwysfawr yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i lwyddo. Mae'r 'Angor' yn lle diogel i ddisgyblion dderbyn cefnogaeth a chymorth unigol ac yn cynnig mynediad dyddiol i ddisgyblion at oedolyn penodol i'w cefnogi.

Drwy arweinyddiaeth glir y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol [CADY] a'r tîm ADY, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn wrth drosglwyddo i'r trefniadau newydd. Mae'r CADY wedi creu darpariaeth gynhwysfawr sy'n cynnwys data manwl, canllawiau clir, hyfforddiant pwrpasol ac adnoddau gwreiddiol i athrawon a chymorthyddion. Mae'r holl wybodaeth hon yn eu harfogi i fod yn hyderus i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion penodol.

Mae disgyblion sy'n mynychu'r 'Noddfa' yn derbyn ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Cefnogir disgyblion ag anghenion emosiynol yn dda iawn er mwyn eu cynorthwyo i ddelio â'u hemosiynau ac ymdopi â bywyd dyddiol yn yr ysgol ac adref. Mae'r CADY ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm yn defnyddio nifer o ffynonellau gwerthfawr i adolygu eu darpariaeth yn rheolaidd ac yn addasu yn ôl anghenion y disgybl er mwyn iddynt lwyddo.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Gwneir hyn trwy wasanaethau, munud i feddwl a thrwy ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth wedi ei theilwra yn ôl yr angen at anghenion lles disgyblion. Er enghraifft, cynigir sesiynau myfyrio i ddisgyblion fedru tawelu eu meddyliau a hyfforddiant cymorth cyntaf angenrheidiol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Mae'r fforwm ddosbarth, y fforwm blwyddyn a'r cyngor ysgol yn darparu cyfle i ddisgyblion gael mynegi eu barn yn agored a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, maent yn arfarnu system ymddygiad yr ysgol a datblygu'r system  wobrwyo yn fwy effeithiol.

Mae'r ysgol yn cydweithio â phartneriaid allanol yn bwrpasol i sicrhau cefnogaeth bersonol sy'n canolbwyntio ar anghenion y disgybl. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu, y gweithiwr ieuenctid a'r gwasanaethau iechyd i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael y gofal a'r cymorth y mae arnynt ei angen i fynychu'r ysgol a bod yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol systemau priodol er mwyn monitro a hybu presenoldeb da. Mae'n cynnwys strategaethau pwrpasol ar gyfer disgyblion sy'n absennol ar sail anawsterau emosiynol er mwyn iddynt ddychwelyd i addysg. Yn gyffredinol, nid yw'r strategaethau presenoldeb wedi cael effaith ddigonol ar leihau absenoldebau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae ethos a diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo lles a diogelwch disgyblion yn llwyddiannus. Treiddia hyn drwy holl waith yr ysgol. Mae trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant cyson ar faterion diogelu ac atal radicaliaeth. O ganlyniad, mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel. Ymateba'r ysgol yn brydlon i bryderon am ddisgyblion gan gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol. Mae'r safle yn eang a rheolir mynediad yn dynn i sicrhau diogelwch disgyblion a staff. Er i'r ysgol geisio gwella pryd a gwedd yr adeilad a bod cynlluniau cyfredol i addasu a gwella, mae cyflwr rhannau o'r adeilad yn wael.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n benderfynol o sicrhau llwyddiant disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae'n daer yn ei ddyhead i ddarparu'r addysg orau i ddisgyblion a'u datblygu'n aelodau cyfrifol o'u cymuned leol. Mae gan y pennaeth ac arweinwyr eraill weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy'n seiliedig ar greu ysgol gymunedol, gynhwysol, lle mae llwyddiant a lles pawb yn flaenoriaeth. Mae'r weledigaeth hon yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi datblygu ysgol ofalgar sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob agwedd o'i gwaith. Mae disgyblion, arweinwyr, staff, llywodraethwyr a rhieni yn cyfleu balchder amlwg o fod yn perthyn i Ysgol Gyfun Llangefni.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn rhoi cefnogaeth gryf i'r pennaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u meysydd cyfrifoldeb. Mae eu cyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n eithaf rhesymol ond, ar hyn o bryd, nid ydynt yn ddigon cydlynus.

Mae gan lawer o arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac mae ganddynt afael briodol ar gynnydd a medrau disgyblion. Ar y cyfan, maent yn effeithiol wrth eu gwaith ac yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb yn gadarn, er nid ydynt bob amser yn ddigon strategol mewn cyfarfodydd nac wrth gynllunio ar gyfer gwella.

Mae trefniadau rheoli llinell yn gadarn ac, yn gyffredinol, mae lefel yr her i arweinwyr canol yn briodol. Mae cyfarfodydd cyson rhwng arweinwyr canol a'u rheolwyr llinell ble trafodir materion perthnasol, gan gynnwys hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae calendr pwrpasol yn sicrhau bod dilyniant a chydlyniaeth rhwng gweithgareddau sicrhau ansawdd, systemau asesu a chyfarfodydd. Mae agendau cytûn i bob cyfarfod er mwyn sicrhau cysondeb yn y materion sy'n cael eu trafod. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol, ac mewn llawer o achosion, mae cysylltiadau addas rhwng amcanion a blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddulliau electronig er mwyn cyfathrebu â rhieni. Yn ogystal, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i holi barn rhieni am waith yr ysgol fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd.

Mae'r llywodraethwyr yn dîm angerddol sydd ag adnabyddiaeth ddeallus o'r ysgol. Maent yn herio arweinwyr yn drylwyr ac yn gyson ac yn gweithredu fel ffrind beirniadol effeithiol. Er enghraifft, maent yn mynnu derbyn cynllun busnes ar gyfer unrhyw wariant yn yr ysgol. Maent yn defnyddio'u medrau a'u profiadau er mwyn cefnogi'r ysgol ac yn datblygu'u dealltwriaeth trwy gysylltiadau ag adrannau penodol.

Nid ydynt yn llwyr ymwybodol o'u rôl statudol wrth osod trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r rheolwr busnes, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd priodol o grantiau i gefnogi disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cyfrannu at gostau teithiau addysgol.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn adnabod prif gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn dda. Mae hunanwerthuso cadarn wedi galluogi arweinwyr i adnabod blaenoriaethau synhwyrol a rhoi ar waith gamau gweithredu effeithiol. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn agweddau pwysig ar waith yr ysgol, gan gynnwys cryfhau'r system fugeiliol, gwella ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu.

Mae'r ysgol yn casglu a dadansoddi tystiolaeth o ystod o ffynonellau dilys ac yn cynnwys pob grŵp o randdeiliaid yr ysgol yn y broses hunanwerthuso. Er enghraifft, maent yn cyrchu barn disgyblion a rhieni yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr canol, na staff eraill, yn cael digon o gyfleoedd i arsylwi gwersi.

Mae system werthfawr o adolygiadau amrywiol ar wahanol agweddau o waith yr ysgol, megis y ddarpariaeth ar gyfer blwyddyn ysgol benodol neu'r ddarpariaeth ADY o fewn adrannau. Mae arweinwyr yn cydweithio'n fuddiol â llywodraethwyr, y rhanbarth ac ysgolion eraill er mwyn cryfhau a dilysu eu prosesau sicrhau ansawdd a'u gwaith hunanwerthuso.

Ar sail eu gwaith sicrhau ansawdd, mae arweinwyr yn darparu trosolygon defnyddiol sy'n crynhoi cryfderau a meysydd i'w gwella ar agweddau penodol ac yn argymell camau gwella defnyddiol. Serch hyn, ni roddir digon o sylw i safonau a chynnydd disgyblion o fewn prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso'r ysgol.

Trwy hunanwerthuso effeithiol, mae arweinwyr wedi adnabod blaenoriaethau gwella synhwyrol sy'n adlewyrchu anghenion yr ysgol a'r gymuned leol, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio gwella adrannol na maes bob amser yn adlewyrchu'r blaenoriaethau traws ysgol. Nid oes digon o eglurder ynghylch y prif flaenoriaethau ysgol gyfan sy'n berthnasol i adrannau neu feysydd. O'r herwydd, nid yw adrannau a meysydd yn cefnogi a gyrru blaenoriaethau ysgol gyfan gystal ag y gallent.

Yn gyffredinol, mae trefniadau addas ar gyfer dyrannu cyfrifoldebau a nodi terfynau amser priodol o fewn cynlluniau gwella. Serch hyn, nid yw'r trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella yn ddigon clir na chadarn. Er enghraifft, yr un person sy'n gyfrifol am flaenoriaeth sydd hefyd yn gwerthuso cynnydd yn ei erbyn. Wrth adolygu cynnydd, mae arweinwyr canol yn dueddol o nodi a ydynt wedi cwblhau gweithredoedd yn hytrach nag arfarnu effaith eu gwaith. Yn ogystal, nid yw bob amser yn glir pryd na sut y dylid adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella.

Mae'r uwch dîm arwain yn trefnu calendr o weithgareddau dysgu proffesiynol buddiol i staff. Mae ansawdd yr hyfforddiant a roddir i gymorthyddion er mwyn iddynt gefnogi disgyblion ag anghenion penodol yn nodwedd gref. Ceir ystod o gyfleoedd defnyddiol i staff ryngweithio â staff mewn ysgolion cyfagos, yn enwedig wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae rhaglen ddefnyddiol i arweinwyr sy'n newydd i'w rôl ddatblygu eu medrau arwain. Mae ystod o gyfleoedd i athrawon ystyried

methodolegau addysgu amrywiol, gan gynnwys sut i ryngweithio â disgyblion bregus. Mae cysylltiad addas rhwng canfyddiadau hunanwerthuso'r ysgol a'r arlwy o weithgareddau dysgu proffesiynol, er enghraifft sesiynau i fireinio dulliau asesu gwaith disgyblion a rhoi adborth iddynt. Fodd bynnag, gan nad yw arweinwyr yn arfarnu'r addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu'n ddigon manwl, nid ydynt bob tro'n cynllunio'u dysgu proffesiynol i wella meysydd penodol yn yr addysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 27/03/2023